**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion cyfarfod o Bwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd 24 Medi 2012 ym Mhencadlys y Gwasanaeth Tân ac Achub, Llanelwy. Dechreuodd y cyfarfod am 2pm.

PRESENNOL

| | |
|---|---|
| Y Cynghorydd: | |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| D MacRae | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| D Miles | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| J R Skelland | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| O Thomas | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL

D Docx (Dirprwy Brif Swyddog Tân); S Forrest (Cyfrifydd, Adran y Trysorlys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

| | |
|---|---|
| Ymddiheuriadau | |
| Y Cynghorydd | |
| J Evans | Cyngor Sir Ynys Môn |
| C Guy-Davies | Cyngor Sir Ddinbych |
| A Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| L A W Jones | Cyngor Gwynedd |
| R Parry | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| M Reece | Cyngor Sir y Fflint |

| | |
|---|---|
| Swyddogion | |
| G Owens | Dirprwy Glerc |
| V Stevens | KPMG |

1 PENODI CADEIRYDD

1.1 Yn absenoldeb y Dirprwy Glerc, agorwyd y cyfarfod gan y Dirprwy Brif Swyddog Tân a gofynnodd am enwebiadau ar gyfer cadeirydd i'r pwyllgor. Cynigiodd y Cynghorydd W P Shotton y Cynghorydd J R Skelland ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd A I Dunbar.

1.2 **PENDERFYNWYD penodi y Cynghorydd J R Skelland yn Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn amodol ar dderbyn cadarnhad yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15fed Hydref.**

2 PENODI DIRPRWY GADEIRYDD

2.1 Aeth y Dirprwy Brif Swyddog Tân ymlaen i ofyn am enwebiadau ar gyfer dirprwy gadeirydd y pwyllgor. Cynigiodd y Cynghorydd W P Shotton y Cynghorydd O A Thomas ac eiliwyd hyn gan y Cynghorydd A I Dunbar.

2.2 **PENDERFYNWYD penodi'r Cynghorydd O A Thomas yn Ddirprwy Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio yn amodol ar dderbyn cadarnhad yng nghyfarfod yr Awdurdod ar 15fed Hydref.**

3 DATGANIADAU O FUDDIANT

3.1 Dim.

4 COFNODION

4.1 Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Ionawr 2012 er cymeradwyaeth. Gan nad oedd dim o'r Aelodau presennol yn y cyfarfod diwethaf, cadarnhaodd Keith Williams a Sandra Forrest fod y cofnodion yn gywir.

4.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir.**

5 MATERION YN CODI

5.1 3.4 – prosiect Wrecsam – gofynnodd y Cynghorydd A I Dunbar am eglurhad am brosiect Wrecsam. Esboniodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân y bydd yr orsaf dân/ambiwlans arfaethedig yn cael ei adeiladu yn Wrecsam unwaith y mae caniatâd cynllunio wedi ei gymeradwyo. Cadarnhaodd y Cadeirydd fod hyn wedi bod yn brosiect parhaus ers nifer o flynyddoedd.

5.2 4.3 – gweithgareddau codi arian at elusen – dywedodd y Cynghorydd W P Shotton ei fod wedi mynychu digwyddiad elusennol golchi ceir yng ngorsaf dân Glannau Dyfrdwy a oedd yn ddiwrnod llwyddiannus a dymunai'r gorau iddynt gyda'u gweithgareddau codi arian.

6 CYLCH GORCHWYL

6.1 Cyflwynwyd cylch gorchwyl y pwyllgor er gwybodaeth.

6.2 **PENDERFYNWYD nodi cylch gorchwyl y pwyllgor.**

7 ADRODDIAD SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU: YMGYSYLLTU Â'R CYHOEDD YN AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

7.1 Cafodd yr eitem hon ei hepgor o'r agenda, ond cytunwyd i dderbyn yr adroddiad yn y cyfarfod. Roedd John Weston o Swyddog Archwilio Cymru yno i gyflwyno'r adroddiad.

7.2 Esboniodd Mr Weston fod ymarferiad i bennu hyd a lled wedi ei gynnal ledled Cymru er mwyn canfod lefel y cyswllt rhwng sefydliadau'r sector cyhoeddus a'r cyhoedd. Roedd ansawdd yr cyswllt i'w weld yn amrywio'n sylweddol o fewn, a rhwng, sefydliadau'r sector cyhoeddus, ac yn dilyn ymgynghoriad penderfynwyd y dylai Swyddfa Archwilio Cymru gynnal astudiaeth drwy Gymru i adolygu ymgysylltu â'r cyhoedd ar draws y Gwasanaethau Tân ac Achub. Lluniwyd yr astudiaeth ar gyfer Cymru gyfan er mwyn ateb y cwestiwn: 'A yw ymgysylltu â'r cyhoedd yn galluogi dinasyddion a phartneriaid i helpu i lywio'r hyn y mae Awdurdodau Tân ac Achub yn ei wneud?'

7.3 Roedd Mr Weston a'i gydweithiwr wedi cyfarfod aelodau o'r cyhoedd yn ogystal â staff o wahanol sefydliadau sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Awdurdod, er enghraifft swyddogion traffig y ffyrdd yng Ngwynedd/Môn, Cymunedau yn Gyntaf yn y Rhyl, Age Cymru a Phrifysgol Bangor. Adroddodd hefyd fod GTAGC yn defnyddio gwefannau rhwydweithio cymdeithasol megis Facebook a Twitter, ac yn defnyddio ei wefan ei hun i ledaenu gwybodaeth am ddiogelwch tân.

7.4 Roedd awduron yr adroddiad wedi dod i'r casgliad fod 'yr Awdurdod yn gallu arddangos ymgysylltiad effeithiol ar lefel weithredol ac yn dangos ymrwymiad cryf tuag at gynyddu ei weithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd. Mae nawr angen iddo ddatblygu agwedd strategol fwy cydgysylltiedig i'w gwneud yn eglur beth yw'r disgwyliadau a'r adnoddau sydd eu hangen i gyflawni a gwerthuso gweithgarwch ymgysylltu â'r cyhoedd yn y dyfodol'. Cydnabyddir 'nad yw'r Awdurdod eto wedi datblygu agwedd strategol eglur tuag at gynllun a gweithrediad ei weithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd'.

7.5 Gwnaed argymhellion ar gyfer gwella, a gofynnwyd i'r Awdurdod ystyried rhoi'r camau canlynol ar waith:

- Parhau i ddatblygu prosesau corfforaethol i hyrwyddo ymgysylltu â'r cyhoedd, yn enwedig:
  - datblygu agwedd strategol fwy cydgysylltiedig ac wedi'i chynllunio'n well tuag at ymgysylltu â'r cyhoedd er mwyn cyfyngu ar ddyblygu gwaith a sicrhau'r effaith a'r canlyniadau gorau;
  - nodi, diffinio a blaenoriaethu pa weithgaredd ymgysylltu â'r cyhoedd sy'n hanfodol i'r Awdurdod, ei bartneriaid a'r cyhoedd y mae'n eu gwasanaethu;
  - nodi'r adnoddau sydd eu hangen a manteisio ar waith maes a gorsafoedd tân lleol i'w hannog i ymgysylltu â'u cymunedau lleol; a
  - datblygu prosesau a strwythur i helpu i baratoi ar gyfer, ac i ymdrin â sefyllfaoedd dadleuol a phenderfyniadau a allai fod yn anodd – er mwyn asesu lefel risg a nodi camau lliniarol.
- Datblygu dulliau ar gyfer defnyddio a gwerthuso canlyniadau gweithgareddau ymgysylltu â'r cyhoedd yn ehangach, a rhoi gwybod i'r cyhoedd sut y mae eu mewnbwn yn dylanwadu ar yr hyn y mae'r Awdurdod yn ei wneud.

7.6 Roedd yr Aelodau'n cefnogi gwaith yr Awdurdod gyda'r cyhoedd, ac yn rhestru Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl, Prosiect y Ffenics a nosweithiau tân gwyllt a drefnir gan orsafoedd tân lleol fel enghreifftiau da o gael cyswllt â'r cyhoedd. Roedd Mr Weston yn cydnabod ymateb yr Aelodau ac yn esbonio mai diben yr astudiaeth oedd canfod bylchau a rhoi argymhellion ar gyfer symud ymlaen o ran cael cyswllt â'r cyhoedd.

7.7 Esboniodd y DBST y bydd yn rhaid i'r Awdurdod ystyried ei ddull strategol o drin y mater o ymgynghori â'r cyhoedd ynglŷn â'r dewisiadau anodd a allai wynebu'r Awdurdod yn y dyfodol, a bod cael cyswllt cynnar â'r cymunedau yn allweddol i sicrhau cefnogaeth gan y cyhoedd.

7.8 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

8 HYFFORDDIANT RHEOLI'R TRYSORLYS

8.1 Cyflwynwyd Sandra Forrest, Prif Gyfrifydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy i'r Aelodau. Eglurodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân fod gan yr Awdurdod Gytundeb gyda Chyngor Conwy ar gyfer darparu gwasanaethau ariannol i'r Awdurdod.

8.2 Mae'r Awdurdod wedi dirprwyo'r dasg o gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys, Dangosyddion Darbodus, Strategaeth Buddsoddi a'r Polisi Darpariaeth Isafswm Refeniw i'r pwyllgor, a darperir adroddiad rheoli'r trysorlys i'r pwyllgor archwilio dair gwaith y flwyddyn.

8.3 Aeth Ms Forrest ymlaen i roi gwybodaeth i'r Aelodau am:

- Strwythur Rheoleiddio Rheoli'r Trysorlys
- Trosolwg o'r Strategaeth Trysorlys
- Ystyriaethau Dyledion
- Ystyriaethau Buddsoddi
- Amgylchedd economaidd

8.4 Mae Cod Ymarfer Rheoli'r Trysorlys CIPFA (2009) yn diffinio rheoli trysorlys fel rheolaeth o lif arian y sefydliad, ei brosesau bancio, trafodion y farchnad ariannol a'r farchnad cyfalaf, rheolaeth effeithiol o'r peryglon sy'n gysylltiedig a'r gweithgareddau hynny a cheisio'r perfformiad gorau posib yn unol â'r peryglon hynny.

8.5 Mae gofyn i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r strategaeth rheoli'r trysorlys a gosod y meini prawf cyffredinol, ar sail blynyddol, cyn ei fod yn cychwyn ac yna ei fonitro trwy gydol y flwyddyn.

8.6 **PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.**

9 RHEOLI'R TRYSORLYS A DANGOSYDDION DARBODUS

9.1 Yn dilyn yr hyfforddiant a ddarparwyd, gofynnwyd i Aelodau ystyried y newidiadau a wnaed ers i'r Awdurdod gymeradwyo'r strategaeth rheoli'r trysorlys a'r dangosyddion darbodus yn nghyfarfod yr Awdurdod ym Mawrth 2012. Ers iddynt gael eu cymeradwyo, mae'r Dangosyddion Darbodus a amcangyfrifwyd ar gyfer 2012-2013 ymlaen wedi newid. Hefyd, bu benthyciadau newydd, a newidiadau i'r rhestr o bartïon i gontract.

9.2 Roedd y newidiadau i'r dangosyddion darbodus fel a ganlyn:

- roedd y Gwariant Cyfalaf gwirioneddol yn 2011-12 yn llai na'r alldro
- Mae Cynlluniau 2011-12 wedi cael eu cario drosodd i 2012-13
- Benthyciadau newydd

9.3 Nodwyd bod strategaeth bresennol y trysorlys yn golygu cael dull gofalus o ymdrin â buddsoddiadau – cyfanswm o 3 mis ar gyfer buddsoddiadau, ymwybyddiaeth o'r farchnad gyfredol a sicrhau bod gwybodaeth i bartïon i gontract yn cael ei diweddaru'n barhaus. Cadarnhaodd Ms Forrest fod hyn yn cael ei ddilyn, a bod arian dros ben yn cael ei ddefnyddio erbyn hyn i gefnogi benthyciadau yn hytrach na buddsoddi yn y marchnadoedd. Roedd y strategaeth hefyd yn golygu benthyca yn y tymor byr i fanteisio ar y cyfraddau llog isel a chynnal ymwybyddiaeth o'r risgiau, er enghraifft bydd codiad yn y cyfraddau llog yn cynyddu'r costau dyledion wrth i fenthyciadau tymor byr aeddfedu.

9.4 **PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r Dangosyddion Darbodus a nodir yn Atodiad A yr adroddiad;**

**(ii) nodi'r Partïon i Gontract a restrir yn Atodiad B yr adroddiad; a**

**(iii) nodi'r benthyciadau newydd gyda PWLB, Cyngor Dosbarth Tendring, Cyngor Bath a De Ddwyrain Gwlad yr Haf, Bwrdeistref Ealing, Llundain a Chronfa Bensiwn Swydd Derby.**

10 DATGANIAD O GYFRIFON

10.1 Gofynnwyd i aelodau gymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2011-12 a'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Yn unol â Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Diwygio) (Cymru) 2010 mae'n ofynnol i'r cyfrifon archwiliedig gael eu cymeradwyo gan yr Aelodau erbyn 30 Medi. Gofynnwyd i Aelodau hefyd gydnabod y llythyr sylwadau i'w anfon at Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG gan yr Awdurdod. Mae awdurdod dirprwyedig wedi ei roi i'r Pwyllgor Archwilio gymeradwyo'r cyfrifon. Nodwyd bod y Panel Gweithredol wedi derbyn y cyfrifon er gwybodaeth yn ei gyfarfod ar 17 Medi 2012, ac nid oedd sylwadau i'w hadrodd yn ôl i'r Pwyllgor Archwilio.

10.2 Aeth Ms Forrest â'r Aelodau drwy'r datganiad o gyfrifon gan dynnu eu sylw at newidiadau a wnaed yn unol â chanfyddiadau'r archwiliad a'r ddau brif newid oedd dyblygu croniad - gostwng balansau Dyledwyr a Chredydwyr £79,000 ac Ailddosbarthu cronfa wrth gefn o Ddefnyddadwy i Annefnyddadwy, £25,000. Gwnaed mân newidiadau er mwyn gwella cyflwyniad y datganiad o gyfrifon.

10.3 O ran y crynodeb o gyfrifon rheolaeth ar dudalen 37 o'r datganiad, ceisiodd y Cadeirydd eglurhad am gostau eraill staff, TG a thaliadau i asiantaethau. Esboniodd y DBST y bu cynnydd yng nghyllideb 'costau eraill staff' oherwydd taliadau diswyddo a wnaed yn dilyn yr adolygiad o'r gwaith gweinyddol. Bu cynnydd yng nghyllideb TG a Chysylltiadau oherwydd oedi ar wahanol brosiectau o'r flwyddyn flaenorol, gyda'r taliadau'n cael eu gwneud ym mlwyddyn ariannol 2011-12. Roedd y taliadau i asiantaethau'n cyfeirio at yr arian sy'n cael ei dalu i asiantaethau allanol am eu gwasanaethau, er

enghraifft, gwasanaethau ariannol a chyfreithiol gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy. Roedd y fanyleb ar gyfer glanhau adeiladau wedi newid, felly roedd llai o gostau staff ond mwy o gyllideb ar gyfer taliadau i asiantaethau.

10.4 Cafodd yr ymrwymiad pensiynau ei esbonio i'r Aelodau, a nodwyd bod y cynllun Llywodraeth Leol yn gynllun sy'n cael ei ariannu'n llwyr, a bod cyfraniadau'n cael eu gosod i ateb yr ymrwymiadau 100%, ond mae cynllun pensiwn y diffoddwyr tân yn gynllun sydd heb fod yn cael ei ariannu y tu allan i'r cyfrif refeniw fel Cynllun Pensiwn ar wahân. Sefydlwyd y gronfa i gynorthwyo gyda rheoli'r gyllideb; mae diffygion yn y gronfa yn cael ei hateb gan Lywodraeth Cymru, ond yr Awdurdod sydd â'r ymrwymiad, ac felly rhaid iddo gael ei adrodd yn y datganiad o gyfrifon.

10.5 Gofynnodd y Cadeirydd am arian grant, ac esboniodd y DBST beth yw pwysigrwydd y grantiau i incwm yr Awdurdod. Oherwydd yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'r Awdurdod mewn perygl o golli'r arian grant a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn y blynyddoedd a fu, ac mae'r swyddogion wrthi'n datblygu strategaeth ymadael rhag ofn na fydd yr arian grant yn dod. Yn ogystal ag ariannu gweithgareddau diogelwch cymunedol, mae'r arian grant hefyd yn cefnogi mentrau pwysig ar yr ochr weithredol, er enghraifft y Dimensiwn Newydd, gan gynnwys offer pwmp cyfaint mawr. Mynegwyd pryder gan yr Aelodau y byddai canfyddiad y cyhoedd o'r GTA yn lleihau petai'r grantiau'n dod i ben, ac felly byddai gwasanaethau gwerthfawr yn cael eu colli.

10.6 **PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Datganiad o Gyfrifon archwiliedig am 2011-12, a chydnabod y llythyr sylwadau a anfonwyd at yr archwilwyr allanol, Swyddfa Archwilio Cymru a KPMG.**

11 ARCHWILIAD O'R DATGANIADAU ARIANNOL

11.1 Roedd Virginia Stevens o KPMG wedi methu mynychu'r cyfarfod oherwydd tywydd drwg a phroblemau trafnidiaeth cyhoeddus. Cyflwynodd y Dirprwy Brif Swyddog Tân yr adroddiad ar ran Ms Stevens.

11.2 Nododd yr Aelodau fod yr Archwiliwr Penodedig wedi datgan ei fwriad i gyhoeddi adroddiad archwiliedig diamod ar y datganiadau ariannol yn amodol ar KPMG yn derbyn llythyr sylwadau gan yr Awdurdod.

11.3 **PENDERFYNWYD nodi'r archwiliad o ddatganiadau ariannol.**

12 CRYNODEB O WEITHGARWCH ARCHWILIO MEWNOL 2011/12 AC ASESIAD O ANGHENION A CHYNLLUN ARCHWILIO DRAFFT 2012/13

12.1 Cyflwynwyd yr adroddiad gan Keith Williams o adran archwilio mewnol Cyngor Sir Bwrdeistref Conwy. Rhoddai'r adroddiad wybodaeth am y gwaith archwilio mewnol a gwblhawyd yn 2011/12, a gofynnai i'r Aelodau gymeradwyo'r asesiad anghenion archwilio mewnol a'r cynllun archwilio mewnol drafft am 2012/13.

12.2 Yn ystod 2011/12 archwiliwyd pedwar adran o'r Gwasanaeth:

- Gorsafoedd yn ôl y galw (Ynys Môn a Gogledd Gwynedd)– derbyniwyd barn archwilio 'boddhaol'
- Rheoli'r Fflyd – derbyniwyd barn archwilio 'da'
- Cyfrif Terfynol – Gorsaf Dân Gymunedol y Rhyl – derbyniwyd barn archwilio 'boddhaol'
- Menter Twyll Genedlaethol – derbyniwyd barn archwilio 'da'.

12.3 Esboniodd Mr Williams y byddai archwiliad dilynol yn cael ei gynnal ryw chwe mis yn ddiweddarach er mwyn sicrhau bod pob argymhelliad wedi cael ei gwblhau. Ers i'r adroddiad gael ei gwblhau, cynhaliwyd yr archwiliad dilynol o weithio mewn partneriaeth ym maes diogelwch cymunedol. Roedd pob argymhelliad naill ai wedi cael ei gwblhau neu wrthi'n mynd ymlaen. Ailaseswyd barn yr archwiliad i fod yn 'foddhaol', gydag ymrwymiad gan y Gwasanaeth i wella'r modd y mae gwaith mewn partneriaeth yn cael ei lywodraethu.

12.4 Bydd archwiliadau o'r adrannau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod 2012/13:

- Gorsafoedd Tân yn ôl y galw (Wrecsam a Sir y Fflint)
- Y Gyflogres – Cychwynwyr ac Ymadawyr
- Storfeydd
- Y Prif Systemau Ariannol - credydwyr

12.5 **PENDERFYNWYD**

**(i) nodi'r crynodeb o weithgarwch Archwilio Mewnol 2011/12; a**

**(ii) cymeradwyo'r asesiad o anghenion a'r cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2012/13.**